# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 8fed o FEDI 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd**

Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Alwyn Parry
Cyng. Non W. Parry
Cyng. Henry Jones
Cyng. Terry Jones

**HEFYD YN BRESENNOL :**
**Cynghorydd Sir :** Non Dafydd, Dylan W. Rees

**Swyddog Gweinyddol :** L. Powell

**Cyfeillion Lon Las :** Malcolm Rogers, Dr. Wyn Morgan, Gethyn Môn Hughes.

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd, Cyng. J. Egryn Lewis yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn*

**25/090** **Ymddiheuriadau :** Cyng. John Lee, Cyng. J. Huw Owen
**Cyngor Sir :** Cyng. Nicola Roberts, Cyng. Geraint Bebb
**Clerc :** Mr. Rhys Parry

**25/091** **Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/092** **Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd**

**25/093** **Cyflwyniad : Cyfeillion Lon Las Môn : Mr. M. Rogers, Cynrychiolydd,** yn cyfeirio at gynlluniau ar gyfer llwybr amlbwrpas o Gaerwen i Amlwch sy'n cael ei gefnogi'n fawr gan nifer o drigolion a busnesau ar draws Ynys Môn. Dr. Wyn Morgan yn cyflwyno braslun o gefndir hanesyddol y lein rheilffordd ac o weledigaeth Prosiect newydd Glasffordd, i ddatblygu corridor gwyrdd parhaus i gerddwyr a beicwyr er mwyn cysylltu Niwbwrch ac Amlwch. Ar ddiwedd y cyflwyniad bu cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a derbyn atebion. Y Ddirprwyaeth yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i'r Prosiect uchod a'r Cadeirydd yn datgan bydd eitem yn cael ei gynnwys ar Raglen y Cyfarfod Llawn nesaf i gael penderfyniad y Cyngor yn swyddogol.
**"Anglesey Walking Festival" :** Yn hanesyddol, bu hyn yn llwyddiannus iawn gyda chynigion i adfywio'r digwyddiad a'i hyrwyddo'n gyhoeddus gyda chefnogaeth o wahanol gyfeiriadau. Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor Tref yn barod i gefnogi hyn i'r dyfodol. Y Cadeirydd yn ymateb bu Eitem yn cael ei gynnwys ar Raglen y Cyfarfod Llawn nesaf i drafod ymhellach.
**PENDERFYNWYD** cynnwys yr uchod ar Raglen nesaf o'r Cyngor Llawn.
Cadeirydd yn diolch i'r Cynrychiolydd Cyfeillion Lon Las am eu cyflwyniad ac fe adawsant y Cyfarfod. Dim trafodaeth bellach.

**25/094 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 14.07.2025**
Cyng. Non Parry yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/095 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 19.05.2025 :**
1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.

**25/096 Cynllunio :**
1 **I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 14.07.2025 :** Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
Cadeirydd yn dwyn sylw at Gais FPL/2025/167 ar y Rhestr Ceisiadau : Banc NatWest, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. Swyddog Gweinyddol yn ymateb fod Swyddog o Adran Cynllunio'r Cyngor Sir wedi cysylltu gyda'r Swyddfa ar 27ain o Awst 2025, yn esbonio fod dim newidiadau allanol mawr i'r Adeilad ond fod arwyddion yn cael eu tynnu i lawr a'r peiriant ATM yn cael ei dynnu allan a'r wal. Dim trafodaeth bellach.

**25/097 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**
Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :
1 **Cyngor Sir Ynys Môn – Digwyddiad Coffa VJ : 15.08.2025** : Cadeirydd wedi mwynhau'r Achlysur ar ddiwrnod braf, ond yn siomedig ar y nifer yn bresennol;
2 **Gwasanaeth Dinesig Brwydr Prydain yng Nghadeirlan Bangor : 20.09.2025 :** Dim wedi cymryd lle eto.

**25/098 Materion yn Codi Gan Aelodau :** Dim

**25/099 Adroddiad y Clerc :**
**Dim Adroddiad i'w gyflwyno oherwydd absenoldeb y Clerc:**
1 **09.11.2025 : Gwasanaeth Sul y Cofio –** Er Gwybodaeth

**25/100 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :**
1 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn 08.09.2025 - Gohirio;**
2 **Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni 09.09.2025 :** Cyng. Dylan Rees yn dwyn sylw, fod yn bwysig i'r Cyngor Tref gyd weithio gyda'r Grŵp a dylid enwebu Cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar y Grŵp, yn dilyn ymddiswyddiad Eleri Burns o'r Cyngor Tref yn ddiweddar. Y Cadeirydd yn ymateb bydd eitem yn cael ei gynnwys ar Raglen y Cyfarfod Llawn nesaf i enwebu Cynrychiolydd ar y Grŵp Adfywio. **PENDERFYNWYD** derbyn cynnig y Cadeirydd.
3 **Cyfarfod Trefi Môn (Y Pump Tref) 04.09.2025 :** Cyng. Margaret Thomas yn adrodd mai pwrpas y Cyfarfod oedd trafod gyda Swyddog o'r Heddlu costau cynnal a chadw'r system CCTV i'r Pump Tref a dylid fod yr Heddlu yn cyfrannu mwy yn flynyddol oherwydd costau cynyddol. Gwaith ar y gweill ar hyn o bryd gydag ymchwil ac ymgynghori mewn lle. Dim trafodaeth bellach.
**Cyflwyniad Mr. Dewi Lloyd, Cyngor Sir Ynys Môn : Diweddariad Adfywio Trefol 04.09.2025 :** Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod llawlyfr wedi'i rannu ar ddechrau'r Cyfarfod, yn nodi'r gwelliannau i'r Trefi. Mr. Lloyd yn adrodd fod cyllideb ar gael yn y flwyddyn ariannol yma ond dim cymaint ag yn y gorffennol ac yn annog y Cynghorau Tref i roi cais i mewn eleni. Cyng. Non Parry yn llongyfarch y Cynllun Paentio trwy Môn CF, a bod tref Llangefni yn edrych yn dda iawn ar ôl y gwaith paentio. Dim trafodaeth bellach.
4 **Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn 09.07.2025 –** Cofnodion yn atodol – er gwybodaeth.

***PARHAD 25/100***

5 **Un Llais Cymru : Cyfarfod EGM 03.09.2025 :** Wedi'i ganslo a'r dyddiad wedi newid i Mis Hydref.

**25/101 Cyllid :**

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Misoedd Gorffennaf ac Awst 2025 :**
Cadarnhaodd y Swyddog Gweinyddol nad oedd unrhyw gwestiynau yn codi o'r Mantolau wedi'u cyflwyno drwy'r Swyddfa.
Cyng. Non Parry yn derbyn eglurhad am y Taliad i Gwmni'r Green Reaper am y Bowser Dwr newydd ar gyfer dyfrio'r planhigion yn y dref.
Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw dylid edrych ar y gost o ail-osod y Camera CCTV ger Llawr y Dref. Yn dilyn o'r uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio i dderbyn y Mantolau Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Misoedd Gorffennaf ac Awst 2025.

**25/102 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**
**Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :**

- Pedwar o Raddedigion wedi'u penodi trwy Gynllun Dyfodol Môn i ddechrau swyddi mewn amrywiaeth o feysydd yn cynnwys Datblygiadau Economaidd, Cyfrifeg a Pheirianneg Drydanol;
- Tynnu Fflagiau heb awdurdod ar eiddo priffyrdd;
- Cynllun Paentio'r Dref a ddatblygwyd a gyflawnwyd gan Môn CF gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn;
- Plaid Cymru : Cynghorydd wedi cael cyfle i fwynhau adnodd newydd yn Llangefni ar Gwrs Golff Bach yn Oriel Môn;
- Wedi bod yn Haf prysur ac wedi mynd i bob dim !

**25/103 Gohebiaeth a Materion Newydd :**

1 **Cyngor Sir Ynys Mon – E-bost 06.08.2025 : Adran Gyfreithiol:Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Thref a Chymuned –** Atodol – er gwybodaeth/sylw.
2 **Un Llais Cymru : Lwfansau Aelodau : Amserlen Gamau Flynyddol 2025 -** Atodol - er gwybodaeth.
3 **Clwb Rygbi Llangefni U8s - E-bost 18.08.2025 :** Aelodau wedi cael cyfle o flaen y Cyfarfod i ddarllen cais y Clwb Rygbi am gymorth ariannol. **PENDERFYNWYD** ystyried y cais yn Mis Ionawr 2026 yn unol â'r Rhestr Cyfraniadau blynyddol. Dim trafodaeth bellach.
4 **Aelod Lleyg :** Swyddog Gweinyddol yn esbonio fod Cais wedi'i dderbyn gan unigolyn yn gofyn i ymuno yn y Cyfarfodydd fel Aelod Lleyg. Yn dilyn trafodaeth ac oherwydd ansicrwydd yn y maes yma, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio, i dderbyn barn Un Llais Cymru ar hyn. **PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig uchod a gweithredu ar hyn.

**25/104 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth**
**Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Misoedd Gorffennaf ac Awst :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | **Un Llais Cymru** | - | **Derbyn** |
| 2 | **Materion Eraill** | - | **Derbyn** |

**25/105 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan Y Cadeirydd :**
Cadeirydd yn adrodd fod materion i'w hystyried i'r dyfodol.

**25/106 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 13.10.2025**